
Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru



Welsh Government's Wales and Africa Grant Scheme

Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica 2022/25 Cylch 2

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Lleoliad	Cais am grant
Hands Around The World	Ysgol yng ngogledd Meru, Kenya, yw Irindiro Special School, sy'n arbenigo mewn addysg plant ag anableddau. Mae gormod o blant yn yr ysgol, a gorlenwi yn her fawr. Bydd y prosiect hwn yn adeiladu dwy ystafell ddosbarth newydd er mwyn lleihau'r gorlenwi a helpu i ateb y galw am leoedd yn yr ysgol.	Sir Fynwy	£12,600.50
Prosiectau GBV Uganda	Darparu hyfforddiant wedi'i deilwra at lefel dystysgrif adnabyddedig er mwyn cyfrannu at ffordd o fyw gynaliadwy i 20 o ferched a syrthiodd yn feichiog yn ystod Covid, gan adael yr ysgol yn gynnar heb unrhyw sgiliau. Prynu 40 o beiriannau gwnïo a phedwar peiriant arbenigol er mwyn sefydlu gweithdy yn y ganolfan a darparu 20 o beiriannau ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio gartref.	Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Abertawe, Tor-faen	£14,000.00
Prifysgol Abertawe – Ysgol Feddygol	Mae Zambia yn mynd i gyflwyno rhaglen hyfforddi'r hyfforddwyr i addysgwyr clinigol. Bydd yr hyfforddwyr hynny yn addysgu ac yn arwain pedair canolfan sgiliau clinigol sydd newydd eu hadeiladu, a fydd yn arwain at gyflwyno oddeutu 7680 awr o hyfforddiant sgiliau clinigol y flwyddyn, ac felly'n mynd i'r afael â'r prinder	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Bro Morgannwg	£16,240.00

	gweithwyr iechyd proffesiynol hyfforddedig yn Zambia.		
Ymddiriedolaeth Rhwydweithio Partneriaethau Tramor	Adeiladu capasiti hanfodol, lle y bydd 120,000 o bobl heb ofal iechyd ar hyn o bryd yn cael mynediad at wasanaeth a fydd yn adnabod clefydau achubol, yn hybu eu hiechyd ac yn eu hatgyfeirio'n amserol i ysbyty drwy hyfforddi 240 o Weithwyr Iechyd Cymunedol newydd. Bydd hyn yn llenwi bylchau mawr a nodwyd yn y gofal iechyd a ddarperir yn rhanbarth Mbale.	Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynin Taff	£24,901.20
Dolen Cymru	Mae Dolen Cymru Lesotho wedi datblygu gwaith partneriaeth yn Lesotho gyda grŵp newydd, 'Leseli la Thuto'. Grŵp o arweinwyr addysg yw'r rhain sydd â'r ewylllys, y sgiliau, y dycnwch a'r gydberthynas â Chymru i ddatblygu eu sgiliau fel Hyfforddwyr mewn llythrennedd a llesiant. Mae prosiectau blaenorol wedi galluogi 11 o athrawon i ddod yn 'Jolly Phonics Trainers' (Hyfforddwyr Ffoneg Hapus) a 3 hwylusydd i ddod yn Hyfforddwyr Gwydnwch. Hoffem ni eu cyllido i barhau â'u datblygiad proffesiynol dros y 12 mis nesaf. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo'r hyfforddwyr Llythrennedd i sicrhau bod y 'Jolly Phonics' yn cael eu cyflwyno ledled y wlad mewn modd cynaliadwy. Bydd hefyd yn cynnwys	Caerdydd, Sir Benfro	£24,822.90

	datblygu ein Pecyn Gwydnwch, a'r gwaith o gyflwyno ei gynnwys a'i nod i ysgolion pellach sy'n gysylltiedig â'n gwaith llesiant.		
Cronfa Elusennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Elusennau Perthnasol Eraill	Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ehangu'r ward bediatrig yn ysbyty ELWA drwy hyfforddi grŵp o staff i weithio gyda phlant sâl a phlant sydd heb gael digon o faeth gan ddefnyddio'r Asesiad a Thriniaeth Brysbennu Brys ynghyd â gweithdai cwrs byr. Bydd y cyllid yn rhoi meddyginiaeth a chyflenwadau yn ogystal â gwelyau a chyfarpar sy'n gysylltiedig ag ocsigen.	Abertawe	£16,800.00
Assadaqaat Community Finance	Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gyflwyno'r rhaglen hyfforddi entrepreneuriaeth, sy'n ymdrin â marchnata, gorbenion a theithio.	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Abertawe, Wrecsam	£13,800.00
Dolen Ffermio	Bydd y prosiect yn darparu'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol gwell i ieuenctid di-waith yn ardaloedd gwledig Dwyrain Uganda. Gan adeiladu ar bartneriaeth 30 mlynedd, bydd Dolen Ffermio yng Nghymru a FARLU yn Uganda yn defnyddio'r cyllid i ddarparu seilwaith hanfodol (dŵr a thrydan) gan alluogi hyfforddiant galwedigaethol a buddion i'r gymuned ehangach.	Powys	£24,810.06